



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Arweiniad Safle
Site Guide



Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Choedwig

Niwbwrch Newborough

National Nature Reserve and Forest

// Dewch i ddarganfod y dirwedd unigryw
hon a ffurfiwyd gan wynt a môr

Discover this unique landscape shaped
by wind and sea



cyfoethnaturiol.cymru
naturalresources.wales



Cymru
Wales



©stokeyouth1

Croeso i Goedwig a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch

Mae'r ardal hon wedi gweld tirwedd sy'n esblygu o dwyni tywod, corsydd, coetiroedd a glaswelltir ers i rewlifau Oes yr Iâ encilio.

Yn 1955 Cwningar Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn oedd y manau arfordirol cyntaf yng Nghymru i gael eu henwi yn Warchodfa Natur Genedlaethol. Mae'r twyni tywod, y corsydd arfordirol, y traethau tywodlyd a chreigiog a ffurfiwyd dros filoedd o flynyddoedd yn gartref i amrywiaeth drawiadol o blanhigion ac anifeiliaid sydd wedi addasu ar gyfer bywyd glan môr, a hynny mewn amgylchedd cyfnewidiol ac yn aml heriol.

Plannwyd Coedwig Niwbwrch rhwng 1947 ac 1965 er mwyn darparu coed a swyddi. Heddiw, mae'n lle pwysig i fywyd gwyllt a gweithgareddau hamdden. Ar ddyddiau tawel mae'r goedwig yn fynedfa i draeth mawreddog Llanddwyn ac ar ddyddiau stormus mae'n rhoi cysgod derbyniol iawn.

Cynigiwn ddewis o feysydd parcio a llwybrau gydag arwyddion er mwyn i chi allu darganfod golygfeydd, bywyd gwyllt, hanes a diwylliant yr ardal. Gweler y manylion ar y map ar y dudalen nesaf.

Welcome to Newborough National Nature Reserve and Forest

This area has seen an evolving landscape of dunes, marsh, woods and grassland since the retreat of the glaciers.

In 1955 Newborough Warren and Ynys Llanddwyn was declared the first coastal National Nature Reserve in Wales. Shaped over thousands of years by the wind and sea, the sand dunes, coastal marshes, sandy and rocky shores are home to a dazzling array of plants and animals adapted to life in a constantly changing and often challenging environment at the edge of the sea.

Newborough forest was planted between 1947 and 1965 to provide timber and jobs. Today it is important for recreation and wildlife. On calm days the forest acts as the gateway to majestic Llanddwyn beach and on stormy days it offers welcome shelter.

We offer a range of car parks and waymarked trails for you to discover this area's views, wildlife, history and culture. See the map on the next page for details.





©Petersrocky

Coedwig Niwbwrch

Coedwig o binwydd Corsica sydd yma, a blannwyd rhwng 1947 ac 1965 er mwyn cael pren ac i sadio'r twyni tywod ansefydlog. Heddiw, mae'n lle poblogaidd iawn i hamddena ynddo.

Hafan i'r wiwer goch a'r gigfran

Er nad yw'r goedwig wedi ei chynnwys yn y Warchodfa Natur Genedlaethol, mae'n ardal bwysig i fywyd gwyllt. Wrth gerdded y llwybrau efallai y byddwch yn cael cipolwg ar y wiwer goch neu'r gylfingroes, neu'n clywed galwad yddfyl y cigfrain sy'n hedfan uwchben, gan fod y goedwig yn fan clwydo eang sydd o bwys cenedlaethol.

Gwell amrywiaeth o goed

Erbyn hyn rydym yn ceisio datblygu'r goedwig yn un sy'n cynnwys amrywiaeth ehangach o rywogaethau o goed a fydd yn gallu dygymod yn well ag effeithiau newid hinsawdd. Wrth ofalu am yr ardal arbennig hon, mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn ystyried mai un safle yw Gwarchodfa Natur a Choedwig Genedlaethol Niwbwrch.

Hoffem wneud y goedwig yn lle mwy dymunol i fywyd gwyllt ac i bobl, yn ogystal â dal i ofalu amdani fel coedwig fasnachol drwy dynnu'r pren yn ofalus a phlannu amrywiaeth o goed newydd.

Darganfod y goedwig a thu hwnt

Ceir manylion am sut i archwilio Coedwig Niwbwrch ar dudalennau'r llwybrau, sy'n dechrau ar dudalen 18.

Newborough Forest

The forest was planted between 1947 and 1965 with Corsican pine trees for timber and to stabilise the shifting sand dunes. Today it is a very popular place for recreation.

A refuge for red squirrels and ravens

Although not included in the National Nature Reserve, the forest is still an important area for wildlife. Whilst walking one of our trails you might catch a glimpse of a red squirrel or a crossbill, or hear the guttural call of ravens flying overhead as the forest hosts a large and nationally important raven roost.

A wider range of trees

We are now looking to create a forest with a wider range of tree species to be able to cope with the impacts of a changing climate. Natural Resources Wales now views Newborough National Nature Reserve and Forest as a whole in terms of how we look after this special area.

We want to make the forest better for wildlife and people whilst still looking after it as a commercial forest including carefully removing timber and replanting with a range of tree types.

Discover the forest and beyond

For details of how to explore Newborough Forest see the trails pages starting on page 18.



Llwybr Darganfod
Anifeiliad a Natur
Nature/Animal
Discovery Trail



Tirwedd twyni dymunol gyda llawer o dywod noeth
Desired dunescape with lots of bare sand



Tywyn Niwbwrch a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ynys Llanddwyn

Mae Tywyn Niwbwrch yn un o'r systemau twyni tywod mwyaf a harddaf ym Mhrydain. Ynghyd ag Ynys Llanddwyn, mae'r twyni a'r traeth yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol sydd hefyd yn cynnwys ardaloedd helaeth o forfa heli a fflatiau tywod arfordirol.

Stormydd yn creu tirlun llawn twyni

Crëwyd y twyni yn yr Oesoedd Canol gan stormydd, llanw'r môr a thywod symudol. Mae modd gweld olion o gyfnod cynharach fyth yma hefyd - mae'r creigiau ar yr ynys lanw hon ac yn y goedwig ymhlith y rhai hynaf yng Nghymru, gan gynnwys y brigiadau o lafa clustog hynod ar y traeth.

Twyni ac aberoedd sy'n fwrlwm o fywyd gwylt

Yn ystod misoedd yr haf gwelir miloedd o flodau lliwgar yn un blanced dros y twyni (gyda thegeirianau prin yn eu plith) ac adar a phryfed yn suo uwchben.

Mae'r aberoedd yn lle da i weld adar hirgoes, hwyaid a gwyddau mudol yn ystod yr hydref a'r gaeaf.

Newborough Warren and Ynys Llanddwyn National Nature Reserve

Newborough Warren boasts one of the largest and finest dune systems in Britain.

Together with the island of Ynys Llanddwyn, the dunes and beach are part of a National Nature Reserve which also includes large areas of saltmarsh and coastal sand flats.

Storms create a dune landscape

Storms, tides and shifting sand created the dunes in the Middle Ages. You can also trace an even earlier history here - the rocks on this tidal island and within the forest are amongst the oldest in Wales, including the distinctive outcrops of pillow lava on the beach.

Dunes and estuaries rich in wildlife

During the summer months the dunes are carpeted in thousands of colourful flowers including rare orchids and are buzzing with insect and birdlife.

The estuaries are a good place to see migrating waders, ducks and geese during the autumn and winter.



llyisiau'r afu petalog
petalwort

tegeirianau'r gors
marsh orchids

gwenyn turio
gwanwynol
vernal mining bee

©Fritz Geller-Grimm

©Des Callaghan

Tywyn Niwbwrch

Cychwyn: Maes Parcio Llyn Rhos Ddu

Mae gofyn i dwyni fod yn rhydd i symud

Ffurfiwyd y twyni uchel a'r pantiau twyni (llaciau) sydd weithiau dan ddŵr gan dirwedd sy'n esblygu'n barhaus - tirwedd a ffurfiwyd gan filoedd o flynyddoedd o stormydd, llanw'r môr a natur.

Daeth y twyni, a fu gynt yn symudol, yn 'sefydlog' yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda gorchudd o blanhigion yn tyfu arnynt o ganlyniad i lygredd aer, patrwm tywydd gwahanol a llai o gwingod ac anifeiliaid yn pori yno.

Mae hyn yn golygu bod llai o dywod noeth, sef cynefin hanfodol i orosiad rhai o'n planhigion a'n pryfed prinnaf, megis llyisiau'r afu petalog a gwenyn turio gwanwynol.

Rydym wedi dechrau defnyddio peiriannau mawr i ail-lunio rhannau sy'n dywod noeth ar hyd yr arfordir. Mae'r gwaith arloesol hwn wedi diogelu rhai o'r rhywogaethau sydd dan fygythiad yn Niwbwrch.

Pethau i'w gwneud

Mae modd mwynhau'r cynefinoedd drwy ddilyn **Llwybr y Twyni** (gweler tudalennau 40-41), neu fynd am dro i'r guddfau adar sy'n edrych dros Lyn Rhos Ddu i weld cwtieir a hwyaid gwylltion yn yr haf a chwiwellau, hwyaid llydanbig a chorhwyaid yn y gaeaf.

Gallwch hefyd ddilyn y Llwybr cerdded cyhoeddus yn syth ymlaen, troi i'r dde a chyrraedd maes parcio'r traeth.

Mwynhewch y blodau gwyllt a chân yr ehedydd yn yr haf neu'r manau eang agored a'r golygfeydd ysblynydd drwy gydol y flwyddyn.

Newborough Warren

Start: Llyn Rhos Ddu Car Park

Dunes need to be free to move

The high dunes and seasonally flooded dune hollows (slacks) here are the result of the ever evolving landscape shaped by thousands of years of storms, tides and nature.

The once mobile dunes have in recent years become 'fixed' and covered in plants as a result of air pollution, changing weather patterns and fewer rabbits and grazing animals.

This means a huge decrease in the amount of bare sand, a habitat crucial to the survival of some of our rarest plants and insects, such as the petalwort liverwort and the vernal mining bee.

To address this we have started re-creating areas of bare sand along the coastline using large machines. This innovative work has safeguarded some of the threatened species found at Newborough.

What can you do from here?

You get a great flavour of the habitats here by following our **Dune Walk** (see pages 40-41). Or visit our nearby birdhide overlooking Llyn Rhos Ddu to see coots and mallards in summer and wigeon, shoveler and teal in winter.

You can also follow the public footpath straight on, turn right, and get to the beach car park.

Enjoy the wildflowers and sound of skylarks in summer or the wide open spaces and spectacular views at any time.



Ar ôl gwaith i greu mwy o dywod noeth
After works to create more bare sand



Tywyn Niwbwrch

Cychwyn: Maes Parcio Braint

Amrywiaeth gyfoethog o gynefinoedd

Mae'r twyni tywod yn Aber Braint yn gymysgedd gyfoethog o bantiau llaith, glaswelltir, helyg a bedw y coetir twyni sy'n dal i ddatblygu, a morfa heli arfordirol Traeth Melynog. Yn ystod yr haf bydd y coetir agored a'r twyni, dan orchudd o flodau, yn atseinio i glegar llwydfronnau, clochdarod y cerrig a llinosiad. Yn ystod yr hydref a dechrau'r gaeaf bydd pibyddion coesgoch a chwtiaid yn ymuno ag adar gwyllt ymfudol megis gwyddau duon, hwyaid yr eithin a chwiwellau ar y morfa heli a'r aber.

Yr aber yn warchodfa i blanhigion ac adar

Ar y morfeydd heli a'r aber mae planhigion sydd wedi ymaddasu'n arbennig yn ffynnu, rhai fel y llyrllys, lafant y môr a brwyn arfor. Mae'r fflatiau llaid yn denu heidiau pwysig i aeafu yno, megis hwyaid llosthain, chwiwellau, corhwyaid, pibyddion coesgoch, a phibyddion y mawn.

Anifeiliaid sy'n pori ar y warchodfa

Mae merlod a gwartheg yn pori cryn dipyn o'r twyni er mwyn cadw'r llystyfiant yn fyr ac yn frith o flodau gwyllt. Cwningod oedd yn arfer gwneud hyn ond mae llai ohonynt ers lledaeniad haint y mycosomatosis yn y 1950au.

Pethau i'w gwneud

Cewch flas o gynefinoedd yr ardal drwy ddilyn **Llwybr y Twyni** (gweler tudalennau 40-41). Mwynhewch y blodau gwyllt a chân yr ehedydd yn yr haf neu'r manau eang agored a'r golygfeydd ysblennydd drwy gydol y flwyddyn.

Newborough Warren

Start: Braint Car Park

A rich mix of habitats

The sand dunes at Aber Braint are a rich mix of damp hollows, grassland, developing dune woodland of willow and birch, and the coastal saltmarsh of Traeth Melynog. During the summer the flower-carpeted dunes and open woodland resound to the chattering of whitethroats, stonechats and linnets. On the saltmarsh and estuary migratory wildfowl such as Brent geese, shelduck and wigeon are joined by redshanks and plovers during the autumn and early winter.

Estuary provides a sanctuary for plants and birds

On the saltmarshes and estuary, specially adapted plants like glasswort, sea lavender and sea rush thrive. The mudflats attract important wintering populations of pintail, wigeon, teal, redshank, and dunlin.

Grazing reserve managers?

Much of the dunes are grazed with ponies and cattle to keep the dune vegetation short and rich in wildflowers. This is to make up for the decline in rabbits which used to do this until myxomatosis struck in the 1950s.

What can you do from here?

You get a great flavour of the habitats here by following our **Dune Walk** (see details pages 40-41). Enjoy the wildflowers and sound of skylarks in summer or the wide open spaces and spectacular views at any time.





Adeffilion Eglwys Santes Dwynwen
Remains of St Dwynwen's Church

Ynys Llanddwyn

Cychwyn: Maes Parcio'r Traeth

Mae cymaint i'w weld a'i wneud ar ynys mor fechan

Mae Ynys Llanddwyn yn lle hudolus, gyda threftadaeth, chwedloniaeth, daeareg a bywyd gwyllt hynod gyfoethog.

Yma gallwch ddarganfod:

- hanes nawddsantes cariadon Cymru ac olion ei heglwys
- goleudy
- 'clustogau' o lafa o losgfynddoedd tanfor
- adar a blodau gwyllt yr ynys

Santes Dwynwen

Ystyr Llanddwyn yw 'Eglwys Santes Dwynwen'. Cysylltir stori Santes Dwynwen, nawddsantes cariadon Cymru, â'r ynys hon am iddi sefydlu eglwys yma yn ystod y 5ed ganrif.

Pethau i'w gwneud yn Ynys Llanddwyn

Ewch am dro ar y **Llwybr Saint, Tywod a Môr** (tudalennau 27, 28 a 29) er mwyn archwilio Ynys Llanddwyn, ei hanes diddorol a stori Santes Dwynwen (mae llwybr sain ar gael). Cofiwch wirio amseroedd y llanw rhag ofn i chi gael eich dal ar yr ynys ar lanw uchel.

Ynys Llanddwyn

Start: Beach Car Park

So much to see and do packed into a small island

Ynys Llanddwyn is a magical place rich in heritage, folklore, geology and wildlife.

Here you can discover:

- the story of the patron saint of lovers in Wales and the remains of the church dedicated to her
- a lighthouse
- 'pillows' of lava from undersea volcanoes
- the island's rich bird-life and wildflowers

Saint Dwynwen

Llanddwyn' means 'the church of Saint Dwynwen'. The story of St Dwynwen, patron saint of lovers of Wales is connected with this island where she established a church during the 5th century.

What can you do at Ynys Llanddwyn

Try our **Saint, Sand and Sea Trail** (pages 27, 28 and 29) to explore Ynys Llanddwyn (Llanddwyn Island) with its rich history, and the story of St. Dwynwen which is available as an audio trail. Please check tide times as very high tides can leave you marooned on the island.





Cob Malltraeth/Malltraeth Cob

Aber Afon Cefni

Cychwyn: Maes Parcio Pen Cob

Arglawdd â phyllau ar gyfer bywyd gwyllt

Yn 1811 cwblhawyd arglawdd Cob Malltraeth er mwyn adennill cors arfordirol eang afon Cefni i'w ffermio. Heddiw, mae'r pyllau y tu ôl i'r Cob yn warchodfa i fywyd gwyllt. Yn ystod yr hydref a'r gaeaf daw adar megis hwyaid cynffonfain, chwiwellau, corhwyaid a chornchwiglod yma i ddianc rhag gaeafau caled yr Arctig. Gallwch weld a chlywed yr ehedydd yn hedfan yn uchel uwchben y warchodfa yn ystod misoedd yr haf.

Gwarchodfa adar yr aber

Mae'r dirwedd sy'n rhan o'r olygfa dros aber afon Cefni ar draws cors arfordirol eang, tywod a môr agored, yn newid yn barhaus.

Mae planhigion a phryfed sydd wedi addasu i fyw mewn mwd a thywod yn rhoi bwyd, lloches a chysgod nythu i amrywiaeth o adar, gan gynnwys corhedyddion y waun, ehedyddion a phibyddion coesgoch. Yn ystod misoedd y gaeaf, daw heidiau o hwyaid cynffonfain, hwyaid yr eithin, chwiwellau a nifer o adar hirgoes i fwydo yma.

Beth sydd i'w wneud o Ben Cob?

Mae llwybr cerdded/beicio yn arwain o'r maes parcio ar hyd y Cob sy'n filltir o hyd. Ar ben y Cob ger pentref Malltraeth ceir meinciau, lle picnic bach a phaneli gwybodaeth. Rhaid cael trwydded i farchogaeth yn y goedwig (ceir gwybodaeth sut i gael un ar dudalen 38) ac mae dau lwybr gydag arwyddion arnynt.

Hefyd gallwch fynd am dro ar hyd **Llwybr Trem yr Aber**, llwybr byr ond gwerth chweil (gweler tudalennau 38-39).

Cefni Estuary

Start: Pen Cob Car Park

An embankment creates pools for wildlife

In 1811 the Cob embankment at Malltraeth was completed to reclaim the large coastal marsh of the Afon Cefni for farming. Today the pools behind the Cob provide a sanctuary for wildlife. During the autumn and winter they are visited by birds such as pintail, wigeon, teal and lapwing which come here to escape the harsher winters of the Arctic. You can see and hear skylarks high above the reserve during the summer months.

Estuary provides sanctuary for birds

The view here across the Cefni estuary, over an expanse of coastal marsh, open sand and sea, takes in an ever changing landscape.

Plants and insects adapted to live in mud and sand provide food, shelter and nesting cover for a range of birds, including meadow pipit, skylark and redshank. In the winter months, flocks of pintail, shelduck, wigeon and many waders feed here.

What can you do from Pen Cob?

From the Pen Cob car park there is a footpath/cycle route along the one-mile cob. At the Malltraeth village end of the cob, there are some benches, small picnic area and information panels. Horse-riding is by permit only (see the contact details on page 38 to get one) and we offer two waymarked routes.

Or you could try our short but rewarding **Estuary View Walk** (see pages 38-39).

©Kathleen Williams

Pyllau Cob Pools





Llwybrau at ddant pawb

Cychwynnwch daith gerdded o un o'n meysydd parcio drwy ddilyn un o'r llwybrau gydag arwyddbyst er mwyn archwilio'r dirwedd syfrdanol hon. Mwynhewch olygfeydd Niwbwrch, y bywyd gwyllt a'r dreftadaeth ar hyd y ffordd.

O **Faes Parcio'r Traeth** gallwch ddilyn nifer o lwybrau. Yn eu plith mae **Llwybr Saint, Tywod a Môr** hyd at Ynys Llanddwyn, **Llwybr Natur / Pos Anifeiliaid** i blant, **Llwybr Rhedeg 5K y Gymanwlad** a dau lwybr beicio i'r teulu. Mae llwybrau eraill hefyd sy'n cychwyn o feysydd parcio niferus Gwarchodfa Natur a Choedwig Genedlaethol Niwbwrch (dangosir y rhain ar y map). Ceir manylion llawn yr holl llwybrau yn y daflen hon.

Mae **Llwybr Darganfod Gwiwerod** yn llawn ffeithiau rhyfeddol am wiwerod ar lwybr cwbl hygyrch at olygfann yn **Llyn Parc Mawr**. Cerddwch ar lwybr y Twyni o faes parcio **Llyn Rhos Ddu** neu faes parcio **Braint** hyd at dwyni tywod Tywyn Niwbwrch gan fwynhau blodau gwylltion yr haf. Hefyd ceir golygfau wych o aber afon Cefni o **Ben Cob** ar lwybr byr ond hyfryd Trem yr Aber.

Maes parcio **Cwningar** yng nghysgod y goedwig yw man cychwyn **Llwybr Treftadaeth y Tywysogion a Phinwydd**, sy'n cynnwys ymweliad ag adfeillion Llys Rhosyr, un o lysoedd Tywysogion Gwynedd.

Dim ond â thrwydded y ceir marchogaeth yn y goedwig, a hynny o faes parcio **Pen Cob** a nodir ar y map ar ochr arall y dudalen - gweler y manylion cyswllt ar dudalen 38, **Llwybrau Pen Cob**, i gael un: Ceir dau lwybr ag arwyddbyst arnynt.

Trails for all tastes

Try one of our waymarked trails to explore this stunning landscape from one of our car parks. Discover Newborough's views, wildlife and heritage along the routes.

From the **Beach Car Park** there are lots of trails you can do including **Saint, Sea and Sand** out to Ynys Llanddwyn, the **Nature/Animal Puzzle Trail** for kids, the **Commonwealth Run, 5km running trail** and two family cycle trails. We also have a range of trails that start from our other car parks dotted around Newborough National Nature Reserve and Forest shown on the map. Full details of all the trails are in this leaflet.

We have a **Red Squirrel Trail** with amazing squirrel facts and a fully accessible trail to a lakeside viewpoint at **Llyn Parc Mawr**. Explore Newborough Warren's sand dunes and summer wildflowers on our Dune Walk from either **Llyn Rhos Ddu** or **Braint** car parks, and get a great view of the Cefni Estuary from **Pen Cob** on the short but sweet Estuary View Walk.

The forest-sheltered **Cwningar** car park is the starting point for the **Princes and Pines Heritage Trail** which includes a visit to the ruins of Llys Rhosyr, one of the courts of the Princes of Gwynedd.

Horseriding in the forest is by permit only from the **Pen Cob** car park marked on the map overleaf - see contact details on page 38, **Pen Cob Trails**, to get one. We have two waymarked routes.



Ynys Llanddwyn
Llwybr Saint, Tywod a Môr
Saint, Sand and Sea Trail

Mynegai Llwybr Trail Index




Llwybr Darganfod Anifeiliaid a Natur Nature/Animal Discovery Trail

Pellter/Distance: 1m/1.5km
Amser/Time: ¼-1 awr/hour

Gradd/Grade: Hawdd/Easy
Dringo/Climb: 39ft/12m



PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




Llwybr Rhedeg 5km 5km Running Trail

Pellter/Distance: 3m/5km
Amser/Time: ½-1 awr/hour



Gradd/Grade: Hawdd/Easy
Dringo/Climb: 108ft/33m

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




Llwybr Saint, Tywod a Môr Saint, Sand and Sea Trail

Pellter/Distance: 4m/7km
Amser/Time: 3 awr/hours

Gradd/Grade: Cymedrol/Moderate
Dringo/Climb: 141ft/68m



PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




Her Natur Cwest Beic Bike Quest Nature Challenge

Pellter/Distance: 5m/7.8km
Amser/Time: 2-3 awr/hours
Dringo/Climb: 203ft/62m



Gradd/Grade: Ffordd goedwig neu debyg/Forest Road and Similar

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




Llwybr Rhedeg y Gymanwlad Commonwealth Running Trail

Pellter/Distance: 8m/13.6km
Amser/Time: 3 awr/hours

Gradd/Grade: Caled/Strenuous
Dringo/Climb: 403ft/123m



PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




Llwybr Ffitrwydd Trim Trail

Pellter/Distance: 1m/2.7km
Amser/Time: 2 awr/hours

Gradd/Grade: Hawdd/Easy
Dringo/Climb: 69ft/21m



PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




Llwybr Treftadaeth y Twysogion a Phinwydd Princes & Pines Heritage Trail

Pellter/Distance: 3m/5.3km
Amser/Time: 2 awr/hours



Gradd/Grade: Hawdd/Easy
Dringo/Climb: 174ft/53m

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




Trot y Coetir Woodland Trot

Pellter/Distance: 7½m/11.8km
Amser/Time: 2-4 awr/hours



Gradd/Grade: Hawdd/Easy
Dringo/Climb: 259ft/79m

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




Llwybr Golygfa'r Llyn Lake View Trail

Pellter/Distance: ¼m/0.3km
Amser/Time: ¼ awr/hour
Dringo/Climb: Gwastad/Flat



Gradd/Grade: Hygyrch/
Accessible

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




Trot y Postmon Postman's Trot

Pellter/Distance: 6½m/10.5km
Amser/Time: 2-4 awr/hour



Gradd/Grade: Hawdd/Easy
Dringo/Climb: 187ft/57m

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




Llwybr Darganfod y Wiwer Goch Red Squirrel Discovery Trail

Pellter/Distance: 1m/2.4km
Amser/Time: 1 awr/hour



Gradd/Grade: Hawdd/Easy
Dringo/Climb: 92ft/28m

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




Llwybr y Twyni Dune Walk

Pellter/Distance: 3½m/5.6km
Amser/Time: 2-3 awr/hours
Dringo/Climb: 49ft/15m



Gradd/Grade: Cymedrol /
Moderate

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




Llwybr Trem yr Aber Estuary View Walk

Pellter/Distance: 1¼m/2.9km
Amser/Time: 1 awr/hour



Gradd/Grade: Hawdd/Easy
Dringo/Climb: 26ft/8m

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE



Gwybodaeth mewn Argyfwng:

Ffoniwch 999 a gofyn am yr Heddlu.

Lleoliad:

Maes parcio traeth | Cyfeirnod Grid AO: SH 405 634
 Cwningar | Cyfeirnod Grid AO: SH 407 641
 Llyn Rhos Ddu | Cyfeirnod Grid AO: SH 426 648
 Braint | Cyfeirnod Grid AO: SH 431 643
 Llyn Parc Mawr | Cyfeirnod Grid AO: SH 413 669
 Maes Parcio Pen Cob | Cyfeirnod Grid AO: SH 411 671

Emergency Information

Phone 999 & ask for Police.

Location:

Beach car park | Cyfeirnod Grid AO: SH 405 634
 Cwningar | Cyfeirnod Grid AO: SH 407 641
 Llyn Rhos Ddu | Cyfeirnod Grid AO: SH 426 648
 Braint | Cyfeirnod Grid AO: SH 431 643
 Llyn Parc Mawr | Cyfeirnod Grid AO: SH 413 669
 Maes Parcio Pen Cob | Cyfeirnod Grid AO: SH 411 671



Ble mae'r llwybrau'n cychwyn? Where do the trails start?

Allwedd Map Key

- | | | |
|-------------------------------------|---|----------------------------------|
| parcio parking | beicio cycling | llwybrau rhedeg running trails |
| gwybodaeth information | marchogaeth horse riding | llwybrau cerdded walking trails |
| toiledau toilets | mainc bench | lle picnic picnic area |
| toiledau hygrych accessible toilets | gwyllo adar bird watching | llwybr cyhoeddus public footpath |
| llwybrau hygrych accessible trails | cyrsiau cyfeiriannu orienteering courses | |
| golygfan viewpoint | offer llwybr ffitrwydd trim trail equipment | |

1 - 5 Pyst marcio Llwybr Clywedol MP3
MP3 Audio Trail marker posts

34 Postyn lleoliad wedi'i rhifo
Numbered location post

i Panel gwybodaeth
Information panel



Llwybr Darganfod Anifeiliaid a Natur



Cychwyn: Maes Parcio'r Traeth
Pellter: 1 milltir//1.5km
Amser: ¾-1 awr
Gradd: Hawdd
Dringo: 39tr/12m

Uchafbwyntiau: Gadewch i'r plant arwain y ffordd wrth i chi chwilio am yr anifeiliaid a'r cliwiau ar hyd y daith.

Cymerwch becyn Gweithgareddau Teulu o'r blwch ar faes parcio'r traeth a dilynwch yr arwyddbyst melyn wrth chwilio am yr anifeiliaid pren. Mae hwn yn llwybr gwastad ar ffyrdd coedwig caregog yn bennaf a rhai traciau byr ond anwastad. Mae yma le picnic a 6 mainc orffwys ar hyd y llwybr.

Llwybr Saint, Tywod a Môr



Cychwyn: Maes Parcio'r Traeth
Pellter: 4 milltir/7km
Amser: 3 awr
Gradd: Cymedrol
Dringo: 141tr/68m

Uchafbwyntiau: Antur deuluol sy'n mynd â chi trwy'r goedwig hyd at ynys chwedlonol Llanddwyn.

Dilynwch yr arwyddbyst glas drwy'r coed, ar hyd ffyrdd coedwig a llwybrau moel nes cyrraedd Ynys Llanddwyn.

Mae 2 fainc ar yr ynys a sawl set o risiau. Gellir darllen hanes yr ardal ar y 4 panel gwybodaeth neu lawrlwythwch llwybr sain CNC.



Sganiwch y cod ar gyfer amseroedd llanw

Nature/Animal Discovery Trail



Start: Beach Car Park
Distance: 1m/1.5km
Time: ¾-1 hour
Grade: Easy
Climb: 39ft/12m

Highlights: Let the children take the lead as you search for the animals and clues along the trail. Pick up a Family Activities pack from the dispenser at the beach car park and follow the yellow waymarkers searching for the wooden animals. This is a mainly flat trail on stoned forest roads and some short but uneven tracks. There is a picnic area and 6 resting benches along the route.

Saint, Sand and Sea Trail



Start: Beach Car Park
Distance: 4m/7.1km
Time: 3 hours
Grade: Moderate
Climb: 141ft/68m

Highlights: A family adventure taking you through the forest and on to the legendary Ynys Llanddwyn.

Follow the blue waymarkers through the forest on forest roads and unsurfaced paths, out to Ynys Llanddwyn. There are 2 resting benches on the island and several flights of steps. You can find out about the areas history on the 4 information panels or download the NRW audio trail.



Scan code for tide times

Allwedd: Tudalen 26
 Map Key: Page 26



Cofiwch, gall llanw uchel eich rhwystro rhag gadael yr ynys - edrychwch ar amserlen y llanw cyn cychwyn ar y llwybr hwn.

Caution: Island can be cut off in high tides - check tide times before starting this route



Llwybr Rhedeg y Gymanwlad



Cychwyn: Maes Parcio'r Traeth

Pellter: 8 milltir/13.6km

Amser: 3 awr

Gradd: Caled

Dringo: 403tr/123m

Uchafbwyntiau: Rhedwch ar gwrs Pencampwriaeth y Gymanwlad 2011.

Dilynwch yr arwyddbyst coch a rhedwch trwy'r goedwig, y twyni helaeth ac ymlaen i Ynys Llanddwyn. Mae'r llwybr yn dilyn ffyrdd coedwig caregog a llwybrau cul ar dywod a graean gyda gwreiddiau coed a thir creigiog ar Ynys Llanddwyn.

Commonwealth Running Trail



Start: Beach Car Park

Distance: 8m/13.6km

Time: 3 hours

Grade: Strenuous

Climb: 403ft/123m

Highlights: Run the 2011 Commonwealth Championship running course.

Follow the red waymarkers and run through the forest, the vast dunes and on to Ynys Llanddwyn. The route is on stoned forest roads and narrow paths on sand and shingle with tree roots and rocky terrain on Ynys Llanddwyn.

Llwybr Rhedeg 5km



Cychwyn: Maes Parcio'r Traeth

Pellter: 3 milltir/5km

Amser: ½-1 awr

Gradd: Hawdd

Dringo: 108tr/33m

Uchafbwyntiau: Cyflwyniad hawdd i redeg llwybrau yn seiliedig ar lwybr y "Park Run" wythnosol poblogaidd.

Dilynwch yr arwyddbyst glas trwy'r goedwig ar hyd ffyrdd coedwig sydd ag arwyneb da a llwybrau tywodlyd cul gyda gwreiddiau coed. Mwynhewch wrth hamddena neu gallwch gymryd rhan yn rhad ac am ddim yn y "Park Run" bob dydd Sadwrn - rhaid cofrestru ymlaen llaw @ parkrun.org.uk.

5km Running Trail



Start: Beach Car Park

Distance: 3m/5km

Time: ½-1 hour

Grade: Easy

Climb: 108ft/33m

Highlights: An easy introduction to trail running based on the route of the popular weekly "Park Run".

Follow the blue waymarkers through the forest on a well surfaced forest roads and narrow sandy paths with tree roots. Enjoy at your leisure or take part in the free, timed, weekly Saturday Park Run - advanced registration required @ parkrun.org.uk.



Sganiwch y cod ar gyfer amseroedd llanw



Scan code for tide times

parkrun
Newborough Forest

Gradd Llwybr Beicio

Ffordd goedwig neu debyg

Yn addas i feicwyr o bob math. Y rhan fwyaf o feiciau a beiciau cymysg. Y gallu i ddefnyddio mapiau yn ddefnyddiol. Efallai na fydd y llwybrau wedi'u marcio.

Mathau o lwybrau ac arwynebau

Cymharol wastad a llydan. Gall wyneb y llwybr fod yn rhydd, yn anwastad neu'n fwdlyd ar brydiau. Efallai y bydd cerbydau neu ddefnyddwyr eraill ar y ffyrdd hyn, gan gynnwys pobl ar gefn ceffylau neu'n mynd â chŵn am dro.

Dringfeydd a nodweddion llwybr technegol (NLIT/TTF)

Gall dringfeydd fod yn amrywiol iawn a gallant gynnwys adrannau byr, serth. Efallai y bydd tyllau yn y ffordd.

Lefel ffitrwydd a awgrymir

Gall bod yn weddol heini fod o gymorth.

Bike Trail Grade

Forest Road and similar

Suitable for a wide range of cyclists. Most bikes and hybrids. Ability to use maps helpful. Routes may or may not be way marked.

Trail & surface types

Relatively flat and wide. The trail surface may be loose, uneven or muddy at times. These roads may be used by vehicles and other users, including Horse riders and dog walkers.

Gradients & technical trail features (TTF's)

Gradients can be very variable and may include short steep sections. Occasional potholes may be present.

Suggested fitness level

A good standard of fitness can help.

Llwybr Corsica



Cychwyn: Maes Parcio'r Traeth

Pellter: 6 milltir/9.9km

Amser: 2-3 awr

Gradd: Ffordd goedwig neu debyg

Dringo: 348tr/106m

Uchafbwyntiau: Ffordd wych o fwynhau Coedwig Niwbwrch ar gefn eich beic.

Mae'r llwybr hwn yn dilyn hanner cyntaf yr Helfa Feiciau (Bikequest) cyn mynd â chi ymhellach i mewn i'r goedwig am rywfaent o heddwch a thawelwch go iawn. Dilynnir llwybrau'r goedwig a ffordd darmac gyda dau lethr byr i'w dringo. Mae lle picnic hanner ffordd ar hyd y llwybr.

Corsica Bike Trail



Start: Beach car park

Distance: 6m/9.9km

Time: 2-3 hour

Grade: Forest Road and similar
Climb: 348ft/106m

Highlights: A great way to enjoy Newborough forest on your bike.

This route follows the first half of the Bikequest before taking you deeper into the forest for some real peace and quiet. The route is mainly on forest tracks and tarmac road with two short slopes to climb. There is a picnic stop halfway.

ER EICH DIOGELWCH

Gwisgwch y dillad diogelwch cywir, yn enwedig helmled a menig beicio.

FOR YOUR OWN SAFETY

Always wear the right safety clothing, and at least a cycle helmet and gloves.

Her Natur Cwest Beic



Cychwyn: Maes Parcio'r Traeth neu Cwningar

Pellter: 5 milltir/7.8km

Amser: 2-3 awr

Gradd: Ffordd goedwig neu debyg

Dringo: 203tr/62m

Uchafbwyntiau: Hwyl ar ddwy olwyn wrth i'r teulu chwilio am ffeithiau natur hynod ddiddorol.

Evch i nôl pecyn gweithgaredd teulu o'r bliwch cyn dilyn yr arwyddbyst drwy'r goedwig. Mae'r daith yn arwain ar hyd llwybrau coedwig a ffordd darmac gyda dau lethr byr i'w dringo. Mae byrddau picnic yn y ddau leoliad.

Bike Quest Nature Challenge



Start: Beach or Cwningar car park

Distance: 5m/7.8km

Time: 2-3 hours

Grade: Forest Road and Similar
Climb: 203ft/62m

Highlights: Family fun on wheels searching for fascinating nature facts.

Follow the waymarkers through the forest after picking up a family activity pack from the dispenser. The route is on forest tracks and tarmac road with two short slopes to climb. There are picnic tables in both locations.

Allwedd: Tudalen 26
Map Key: Page 26



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022. OS 100019741
© Crown copyright and database rights 2022. OS 100019741



Llywyr Treftadaeth y Tywysogion a Phinwydd



Cychwyn: Maes Parcio Cwningar

Pellter: 3 milltir/5.3km

Amser: 2 awr

Gradd: Hawdd

Dringo: 174tr/53m

Uchafbwyntiau: Ymweliad â Llys Rhosyr, llys un o Dywysogion Gwynedd gynt.

Dilynwch yr arwyddbyst gwyn ar hyd ffyrdd coedwig, ffyrdd cyhoeddus a llwybrau heb arwyneb, gyda thywod, mwd ac ambell wreiddyn coeden. Mae yna sawl giât a 3 mainc lle gallwch gymryd hoe. Gellir darllen hanes yr ardal ar y 6 panel gwybodaeth neu lawrlwythwch llywyr sain CNC.

Princes and Pines Heritage Trail



Start: Cwningar car park

Distance: 3m/5.3km

Time: 2 hours

Grade: Easy

Climb: 174ft/53m

Highlights: Visit Llys Rhosyr, a former court of one of the Princes of Gwynedd.

Follow the white waymarkers on forest and public roads and unsurfaced paths, with sand, mud and occasional tree roots. There are several gates and 3 benches where you can take a rest. Find out about the area's history on the 6 information panels or download the NRW audio trail.

Llywyr Ffitrwydd



Cychwyn: Maes Parcio'r Traeth neu Cwningar

Pellter: 1 milltir/2.7km

Amser: 2 awr

Gradd: Hawdd

Dringo: 69tr/21m

Uchafbwyntiau: Cyfle i ddod yn fwy heini drwy ddefnyddio'r 11 safle ymarfer corff yn y goedwig.

Dilynwch yr arwyddbyst gwyrdd ar daith weddol wastad ar hyd ffyrdd coedwig a llwybrau tywodlyd gyda rhai gwreiddiau coed yn y golwg. Mae panel cyfarwyddiadau ar bob safle ymarfer corff a mainc i orffwys arni gerllaw.

Trim Trail



Start: Beach or Cwningar car park

Distance: 1m/2.7km

Time: 2 hours

Grade: Easy

Climb: 69ft/21m

Highlights: Improve your fitness in the forest using the 11 exercise stations.

Follow the green waymarkers on a generally level route on forest roads and sandy tracks with some exposed tree roots. Each exercise station has an instruction panel and resting bench nearby.





Gweld gwiwerod

Llyn Parc Mawr yw un o'r manau gorau yn Niwbwrch i gael cip ar un o'n mamaliaid prinnaf, y wiwer goch. Erbyn canol y 1990au, roedden nhw wedi diflannu o'r goedwig i bob prwpas, ond cawsant eu hailgyflwyno o Sŵ Mynydd Cymru yn 2004.

Llwybr Golygfa'r Llyn



Cychwyn: Maes Parcio Llyn Parc Mawr

Pellter: Llai na milltir/0.3km

Amser: Llai nag awr

Gradd: Hygyrch

Dringo: Gwastad

Uchafbwyntiau: Yr olygfan sy'n edrych ar draws y llyn cudd yn y goedwig a'r wybodaeth am yr adar sy'n byw yno.

Dilynwch yr arwyddbyst glas ar draws y lle picnic. Gallwch aros yno i wyllo'r gwiwerod coch yn bwyta ar y porthwyr cyn mynd yn eich blaen tuag at y llyn. Mae'r llwybr 1.5m o led hwn yn wastad gydag arwyneb da, lleoedd pasio mynych a manau gorffwys bob 50m.

Seeing squirrels

Llyn Parc Mawr is one of the best places in Newborough to catch site of one of our rarest mammals, the red squirrel. By the mid 1990s they had almost disappeared from the forest but were re-introduced in 2004 from the Welsh Mountain Zoo.

Lake View Trail



Start: Llyn Parc Mawr Car Park

Distance: ¼m/0.3km

Time: ¼ hour

Grade: Accessible

Climb: Flat

Highlights: The viewpoint looking across the hidden forest lake and information on the birds which live there.

Follow the blue waymarkers across the picnic area where you can stop to watch the red squirrels on the feeders before continuing on to the lake. This is a flat 1.5m wide well surfaced trail with frequent passing places and resting areas every 50m.



Llwybr Darganfod y Wiwer Goch



Cychwyn: Maes Parcio Llyn Parc Mawr

Pellter: 1 milltir/2.4km

Amser: 1 awr

Gradd: Hawdd

Dringo: 92tr/28m

Uchafbwyntiau: Llwybr hwyliog i'r teulu gyda phaneli gwybodaeth am Sara'r wiwer goch.

Dilynwch yr arwyddbyst coch ar lwybr gwastad yn bennaf, trwy'r coed pinwydd gan fynd yn agos at y llyn. Ceir dringfeydd byrion ar lethrau tywodlyd a gwreiddiau coed. Ar ôl tywydd gwlyb efallai y bydd rhannau o'r llwybr dan ddŵr.

Red Squirrel Discovery Trail



Start: Llyn Parc Mawr Car Park

Distance: 1m/2.4km

Time: 1 hour

Grade: Easy

Climb: 92ft/28m

Highlights: Fun family trail with information panels about Sara the red squirrel.

Follow the red waymarkers on a mainly level trail through the pine woods passing close to the lake. There are short climbs up sandy slopes, some tree roots and sections of path can become flooded after wet weather.

Trwyddedau Marchogaeth

(angenrheidiol ar gyfer pob un sy'n marchogaeth)

Gallwch gael trwydded wythnosol NEU ffynydol trwy lenwi ffurflen gais sydd ar gael gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru

newboroughhorsepermits@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
neu ffonwch y Ganolfan Gyswilt ar 03000 65 3000

Sylwer: Bydd angen i chi ganiatáu o leiaf 3 diwrnod gwaith i brosesu eich cais.

Horsriding Permits

(required for all equestrian visitors)

You can get a weekly OR annual permit by completing an application form available from:

Natural Resources Wales

newboroughhorsepermits@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
or ring the Contact Centre on 03000 65 3000

Please note: You will need to allow a minimum of 3 working days to process your application.

Cob Mallaeth
Mallaeth Cob

Rydych yma
You are here

Maes Parcio
Pen Cob
Car Park



Maes Parcio
Llyn Parc Mawr
Car Park



Niwbwrch
Newborough

Llwybr Trem yr Aber

11

Cychwyn: Maes Parcio Pen Cob

Pellter: 1¼ milltir/2.9km

Amser: 1 awr

Gradd: Hawdd

Dringo: 26tr/8m

Uchafbwyntiau: Y golygfeydd ar draws yr aber a'r gwelyau cors.

Dilynwch yr arwyddbyst brown ar hyd y llwybr byr hwn tuag at y golygfannau, gan gadw llygad am adar dŵr yn y gaeaf a gweilch yn pysgota yn yr haf. Mae'r daith yn dilyn ffordd coedwig a llwybrau tywodlyd cul sydd â rhai gwreiddiau coed. Mae 2 fwrdd picnic hanner ffordd ar hyd y llwybr.

Trot y Coetir

12

Cychwyn: Maes Parcio Pen Cob

Pellter: 7¼ milltir/11.8km

Amser: 2-4 awr

Gradd: Hawdd

Dringo: 259tr/79m

Trot y Postman

13

Pellter: 6½ milltir/10.5km

Amser: 2-4 awr

Gradd: Hawdd

Dringo: 187tr/57m

Uchafbwyntiau: Archwiliwch y goedwig ar gefn ceffyl a mwynhau'r golygfeydd o'r twyni a'r aber.

Dilynwch yr arwyddbyst du neu'r rhai glas trwy'r goedwig ar hyd ffordd gwastad, llydan sydd ag arwyneb da a llwybrau tywodlyd gyda gwreiddiau mewn mannau. Safle parcio pwrpasol, cyfyngedig, i gerbydau/ceffylau.

Estuary View Walk

11

Start: Pen Cob Car Park

Distance: 1¼m/2.9km

Time: 1 hour

Grade: Easy

Climb: 26ft/8m

Highlights: Views across the estuary and reedbeds.

Follow the brown waymarkers on this short trail to the viewpoints looking out for wildfowl in the Winter and fishing Opsrey in the Summer. The trail is on forest roads and narrow sandy tracks with some tree roots. There are 2 picnic tables halfway around the trail.

Woodland Trot

12

Start: Pen Cob Car Park

Distance: 7¼m/11.8km

Time: 2-4 hours

Grade: Easy

Climb: 259ft/79m

Postman's Trot

13

Distance: 6½m/10.5km



Time: 2-4 hours

Grade: Easy

Climb: 187ft/57m

Highlights: Explore the forest on horseback with views over the dunes and estuary.

Follow the black or blue waymarkers through the forest on these flat trails on wide well surfaced forest roads and sandy tracks with some roots in places. Dedicated parking area for vehicles/horses with limited space.



Allwedd: Tudalen 26
Map Key: Page 26

Coedwig Niwbwrch
Newborough Forest



Bae
Llanddwyn
Bay

Ynys
Llanddwyn
Island

Twynyn Niwbwrch
Newborough Warren

Traeth Melynog

Trwyn
Abermenai
Point



Gofalwch: gall llanw uchel ei gwneud yn anodd cerdded ar hyd y glannau a gall glaw'r gaef lenwi pantiau'r twyni, y bydd rhaid i chi eu hosgoi pan fyddant rhwng arwyddbyst.

Caution: high tides can make walking along the shore difficult, whilst winter rain can flood the dune hollows (slacks) which you will need to avoid when they are between waymarkers.

Llwybr y Twyni

14

Cychwyn: Maes Parcio Braint neu Llyn Rhos Ddu

Pellter: 3½ milltir/5.6km

Amser: 2-3 awr

Gradd: Cymedrol

Dringo: 49tr/15m

Uchafbwyntiau: Blodau gwyllt a chân ehedydd yn y gwanwyn; adar sy'n ymweld yn yr haf a'r gaef ar y morfa heli a'r aber.

Dilynwch yr arwyddbyst porffor ar draws y twyni glaswelltog, lle mae merlod yn pori, er mwyn cyrraedd y lan a gweld golygfeydd o'r aber, y morfa heli a'r adar niferus sy'n byw yno. Mae hwn yn llwybr glaswelltog, pantïog, heb arwyneb, gyda rhai rhannau'n dywod. Mae 3 mainc ar y llwybr gyda 2 ohonynt yn edrych dros yr aber a'r mynyddoedd.

Dune Walk

14

Start: Braint or Llyn Rhos Ddu Car Park

Distance: 3½m/5.6km

Time: 2-3 hours

Grade: Moderate

Climb: 49ft/15m

Highlights: Wildflowers and singing skylarks in the Spring and Summer and Wintering birds on the saltmarsh and estuary.

Follow the purple waymarkers across the grassy dunes, which are grazed by ponies, to reach the shore and the views of the estuary and saltmarsh and the many birds which live there. This is an undulating unsurfaced grassy path with some patches of sand. There are 3 benches on the trail 2 of which overlook the estuary and the mountains.

Mae'r twyni ar grwydr...

Erydu mae'r twyni ar hyn o bryd ac maen nhw wedi bod yn cilio i mewn i'r tir er 2009. Mae hyn yn rhan o broses naturiol.

Efallai y gwelwch ymylon y twyni ar oleddf 1-2m i lawr i'r traeth, yn enwedig ar ôl stormydd, felly cerddwch i

lawr yn ofalus.

Rydym yn gwneud ein gorau glas i glirio tywod oddi ar y llwybr pren er mwyn cynnal yr olygfa tuag at yr ynys a'r môr ond gall fod wedi'i dagu gan dywod ar ôl tywydd garw.

MWYNHAU NIWBWRCH YN DDIOGEL

Rydym am i chi gael ymweliad diogel, pleserus â Niwbwrch, felly darllenwch y canllawiau canlynol, os gwelwch yn dda:

- Pan fyddwch yn cerdded ar Ynys Llanddwyn neu'r aber, byddwch yn ymwybodol y gallech gael eich dal yno gan y llanw. Dylech wirio amserau'r llanw cyn cychwyn ar eich taith gerdded.
- Peidiwch â chloddio tyllau na thwneli yn y twyni tywod - gall tywod ddimchwel a'ch mygu.
- Mae yna fannau peryglus ar yr ynys; arhoswch ar y llwybrau troed, os gwelwch yn dda.
- Byddwch yn ymwybodol o fwd/tywod suddo meddal ar yr aber.
- Peidiwch â chyffwrdd unrhyw weddillion milwrol - fe allai ffrwydro! Hysbyswch yr heddlu os gwelwch unrhyw beth amheus.
- Weithiau bydd angen i ni gau neu arallgyfeirio llwybrau er diogelwch y cerddwyr tra byddwn yn gwneud gwaith cynnal a chadw neu waith yn y goedwig. Dilynwch y cyfarwyddiadau, os gwelwch yn dda.
- Ni chaniateir parcio dros nos, gwersylla na chynnau tân ar y safle - cefnogwch feysydd gwersylla lleol, os gwelwch yn dda.
- Pan fyddwch ar y llwybrau, efallai y byddwch yn cwrdd â cherbydau, beiciau, ceffylau, pobl neu gŵn.
- Peidiwch â bwydo na mynd yn agos at dda byw.
- **Mewn argyfwng ffoniwch 999**

The dunes are on the move...

The dunes are currently eroding and have been retreating inland since 2009. This is part of a natural process.

You may find that the edge of the dunes drops down 1-2m onto the beach, especially after storms,

so make your way down carefully.

We do our best to keep the boardwalk clear of sand to maintain the view out to the island and sea but it may be blocked by sand after severe weather.

ENJOYING NEWBOROUGH SAFELY

We want you to have a safe enjoyable visit to Newborough, so please read the following guidance:

- Please be aware when walking on Ynys Llanddwyn or the estuary you could be cut off by the tide. You should check the tide tables before starting your walk.
- Do not dig holes or tunnels in the sand dunes - sand can collapse and suffocate you.
- There are unprotected drops on the island, please stay on the footpaths.
- Be aware of soft sinking mud/sand on the estuary.
- Do not touch any military debris - at may explode! Report any suspect objects to the Police.
- Sometimes we need to close or divert trails for your safety while we carry out maintenance work or forest operations. Please follow any instructions.
- Overnight parking, camping and fires are not allowed on the site - please support local campsites.
- When out on the trails you could meet vehicles, cycles, horses, people or dogs at any time.
- Do not feed or approach livestock.
- **In emergency dial 999**

Gofalwch am yr adar sy'n magu a'r adar sy'n gaeafu yn Niwbwrch

Yn ystod yr hydref a'r gaeaf bydd nifer fawr o adar o bob cwr o Ewrop yn ymgynnull i fwydo a chysgu ar hyd y Cob a'r aber.

Mae'n hawdd iawn fy nychryn i! Mae'n hawdd aflonyddu ar yr adar a pheri iddyn nhw hedfan i ffwrdd os ydyn nhw'n teimlo dan fygythiad. Byddant yn gwastraffu egni gwerthfawr sydd ei angen arnynt i gadw'n gynnes yn yr oerfel!

Cadwch eich ci ar dennyn, os gwelwch yn dda ac osgoi heidiau o adar sy'n bwydo.

Help protect Newborough's breeding and overwintering birds

During the autumn winter large numbers of birds from all over Europe gather to feed and sleep along the cob and estuary.

I scare easily! The birds can easily be disturbed and take flight if they feel threatened, using up valuable energy that they need to keep warm in the cold!

Please keep your dog on a lead and avoid any flocks of feeding birds.

Cwtiad Torchog
Ringed Plover



© Andreas Trepte

Hwyaden Lostfain
Pintail



© Dick Daniels

Camwch yn ofalus!

Yn y gwanwyn a'r haf bydd **cwtiaid torchog** yn nythu ar draeth Llanddwyn ac ar Ynys Llanddwyn.

Mae eu nythod wedi'u cuddliwio ymysg y cerrig mân, felly, os gwelwch yn dda byddwch yn ofalus rhwng mis Ebrill a mis Medi a chadwch eich cŵn ar dennyn yn ystod y cyfnod hwn.



Tread carefully!

In the spring and summer **ringed plover** nest along Llanddwyn Beach and on Ynys Llanddwyn.

Their nests are camouflaged amongst the pebbles so please take care from April to September and keep your dogs on a lead during this time.





0300 065 3000
 cyfoethnaturiol.cymru
 naturalresources.wales

Os hoffech chi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, rhowch wybod inni, os gwelwch yn dda: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
 0300 065 3000

If you would like this publication in a different format, please let us know: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
 0300 065 3000

Llun clawr/Cover photo ©Drew Buckley Photography
www.drewbuckleyphotography.com

NATU100 02/22



CYNGOR SIR
 YNYS MÔN
 ISLE OF ANGLESEY
 COUNTY COUNCIL



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%
 Printed on 100% recycled paper

